Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd: Adroddiad Blwyddyn 6

2025/26



Cyfoeth Naturiol Cymru, Medi 2026

(fersiwn Gymraeg / Welsh version)

Cynnwys

Cynnwys **2**

1. Uchafbwyntiau 2025/26 ..... **3**

2. Crynodeb Gweithredol **4**

2.1. Y golwg eang 4
2.2. Rhai o uchafbwyntiau 2025/26 4
Dadansoddiad Cymru-gyfan o ddata cyflawni gwaith adfer mawndir 6

3. Cyflwyniad **7**

3.1. Rhaglen effeithiol gyda ffocws a blaenoriaethau 7
3.2. Rheoli uwchraddio adnoddau a chwmpas 8

4. Cyllid ar gyfer cyflawni **10**

4.1. Grantiau 11
4.1.2 Cyllid Strategol a Ddyrannwyd 11
4.1.2. Grantiau cystadleuol 13
4.2. Caffael uniongyrchol 14
4.3. Cytundebau Rheoli Tir 16
4.4. Trwyddedau mynediad 18

5. Trosolwg cyflawni **19**

5.1. Trosolwg strategol 19
5.2. Uchafbwyntiau partneriaid 23
5.2.1. CSD Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 23
5.2.2. CSD Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 24
5.2.3. CSD yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 25
5.2.4. CSD yr RSPB 26
5.2.5. CSD Ymddiriedolaeth Cwm Elan 27
5.2.6. CSD Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy 28

6. Arolygu a monitro **29**

6.1. Uchafbwyntiau yn 2025/26 29

7. Gwyddor data **31**


8. Polisi, cynllunio datblygu, adrodd, a thystiolaeth **32**

8.1. Polisi 33
8.2. Cynllunio datblygu 33
8.3. Adrodd 34
8.4. Tystiolaeth 34

9. Ymgysylltu – partneriaid, contractwyr, a'r cyhoedd **35**

9.1. Ymgysylltu â phartneriaethau 35
9.2. Ymgysylltu â chontractwyr 35
9.3. Cyfathrebu 36

1. Uchafbwyntiau 2025/26



2. Crynodeb Gweithredol

2.1. Y golwg eang...

Mae ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i adfer byd natur, rheoli tir yn gynaliadwy a gweithredu ar yr hinsawdd wedi ysgogi ei huchelgais i gynyddu adfer mawndiroedd ledled y wlad yn sylweddol. Trwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (RhWGF) y nod yw treblu cyfradd adfer mawndiroedd flynyddol erbyn 2030/31. Mae hyn yn adeiladu ar gyflawniad llwyddiannus cyfnod cychwynnol pum mlynedd y Rhaglen (2020-25), a rhagorodd ar ei darged adfer mawndir gwreiddiol, sef 3,000ha, drwy gyflawni adferiad >3,600ha.

Mae symud o'r Rhaglen gychwynnol i gyflawni ar y raddfa sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn mynnu newid sylweddol mewn capasiti, gallu a ffyrdd o weithio ar draws y sector adfer mawndiroedd. Felly roedd trawsnewid yn nodwedd allweddol yn 2025/26 wrth i'r Rhaglen fewnosod y capasiti uwchraddedig sy'n ofynnol i gyflawni ar raddfa gyflymach a fwy. O dan faner, Adfer Mawndir Cymru, mae'r bartneriaeth adfer ehangach hefyd yn allweddol i gyflawni'r targedau uwch, ac mae'n ganolog i ehangu'r Rhaglen.

Er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o gyflawni adfer 1,800ha y flwyddyn erbyn 2030/31, mae RhWGF wedi cynllunio ar gyfer cynyddu gallu a chapasiti yn raddol, a chynyddu cyflawni o 600ha i 1,800ha y flwyddyn dros y cyfnod hwn. Mae ehangu'r Rhaglen yn sicrhau capasiti ar gyfer dylunio a gweithredu i ddilyn egwyddorion allweddol adfer:

- meithrin gwydnwch ecosystemau
- gweithio ar raddfeydd priodol
- integreiddio anghenion rhywogaethau mawndir â blaenoriaeth.

Mae Adolygiad 2020-2025 a Chynllun 2025-2030, a gwblhawyd yn 2025, yn darparu mwy o fanylion.

2.2. Rhai o uchafbwyntiau 2025/26

- **Staffio**: Uwchraddio mewn capasiti a gallu trwy dyfu'r tîm o 7 aelod i 38 ar draws ystod o swyddogaethau. Mae'r capasiti hwn yn galluogi'r Rhaglen i gyflymu adfer (gan gynnwys trwy gefnogi partneriaid), monitro, ac eirioli, gan sicrhau data cywir ac atebolrwydd wrth adrodd yn gyhoeddus.
- **Arbenigedd**: Mae'r capasiti uwchraddedig yn cyfrannu arbenigedd ychwanegol o ran gweithredu, datblygu contractwyr, polisi a chynllunio, arolygu a monitro, data a GIS, ac ymgysylltu â phartneriaethau.
- **Cyflawniad**: Adfer >600ha o fawndir trwy reoli erydiad a rheolaeth hydrolegol, a rheoli >1500 o goed a llystyfiant. (Gweler y dadansoddiad yn y blwch canlynol.)
- **Gwariant**: Cyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd i'r Rhaglen yn 2025/26 oedd £5,220,000 Cyfalaf a £422,000 Refeniw. Darparwyd 100% o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru.

- **Grantiau**: Dyfarnodd y Rhaglen gyfanswm o £2.6m (o gyfanswm o £2.7m a oedd ar gael trwy'r Rhaglen) ar draws 17 o dderbynwyr drwy 20 grant yn 2025/26. Roedd y dyfarniad yn £2m drwy'r Cyllid Strategol a Ddyrannwyd (CSD/SAF) a £600k drwy'r Grant Adfer Mawndir cystadleuol.
- **Contractio:** Lansio a dyfarnu fframwaith adfer mawndir 8 mlynedd. Derbyniwyd cyfanswm o 18 contract ar y fframwaith o dan y lotiau canlynol: gwaith paratoi'r tir (8), rheoli llystyfiant a phrysgwydd (8), a datblygu contractwyr (2).
- **Cyngor ar ddatblygiadau:** Cryfhaodd capasiti gwaith achos ychwanegol allu CNC i fynd i'r afael â chynigion cynllunio datblygu cynyddol o ran nifer a chymhlethdod, sy'n effeithio ar gynefinoedd mawndiroedd. Roedd yr adnodd staff ychwanegol yn cefnogi cyngor amserol a chymesur gan gyfrannu at wneud penderfyniadau gwybodus.
- **Adroddiadau:** Cwblhawyd cyflwyniadau arbenigedd mawndiroedd ar gyfer adroddiad 9A Rheoliadau Cynefinoedd yn 2025/26.
- **Partneriaeth**: Cydlynu grwpiau a rhwydweithiau strategol allweddol Adfer Mawndir Cymru, gan gynnwys: Grŵp Ymarferwyr, Grŵp Partneriaid Strategol, Grŵp Monitro, a Grŵp Tystiolaeth.
- **Ymgysylltu â'r cyhoedd** Mae digwyddiadau, cyfryngau cymdeithasol a fideos wedi bod yn rhan o'r ymgysylltu yn 2025/26, gan gynnwys Stori Mawndir Cymru a Mawndir: y da, y drwg, a'r tirfeddygon.
- **Yn y newyddion**: Mae ymateb y cyhoedd a'r cyfryngau i adfer mawndiroedd wedi bod yn gadarnhaol. Un stori nodedig yn 2025/26 oedd hanes mawndir wedi'i adfer yn ardal Tywi yn atal lledaeniad tanau gwyllt.

Dadansoddiad Cymru-gyfan o ddata cyflawni gwaith adfer mawndir

Gall cyfrif am adfer mawndiroedd fod yn gymhleth o ystyried y gwahaniaeth rhwng y gweithgarwch a'r dull o gyfrifo ardal ôl troed y gweithredu ar fawndir. Mae'r wybodaeth ganlynol yn eglurhad byr mewn perthynas â'r tabl isod:

- **Gweithgarwch Adfer:** Cyfanswm arwynebedd y gweithgarwch a ariannwyd gan y RhWGF ar gyfer 2025/26 yw **2,528ha** ac mae'n cynnwys elfen o orgyffwrdd lle mae sawl gweithgaredd yn digwydd ar yr un darn o dir, e.e. rheoli coed ac adfer hydrolegol.

- **Ôl Troed Adfer**: Mae cyfrif cyfanswm yr arwynebedd ôl troed yn mynd i'r afael â'r gorgyffwrdd, ac ar gyfer gweithgarwch a ariannwyd gan RhWGF yn 2025/26 **2,136ha** yw'r arwynebedd dan sylw. Mae'n llai na chyfanswm yr holl weithgareddau adfer oherwydd ei fod yn dileu'r gorgyffwrdd ac yn cynrychioli arwynebedd gwirioneddol y mawndir y gweithwyd arno.
- Yr ardal a adroddwyd arni ar gyfer rheoli hydrolegol ac erydiad (sydd â'r effaith fwyaf o ddal carbon) a ariannwyd gan RhWGF yw **602ha**. Ochr yn ochr â'r gweithredu hyn roedd **1,534ha** ychwanegol o reoli coed a llystyfiant.

- Yn ogystal, mae'r Rhaglen hefyd yn adrodd ar y data o brosiectau adfer nad ydynt yn cael eu hariannu gan RhWGF a gellir dod o hyd i'r data hwn yn y golofn ganol. Mae'r golofn ar y dde yn dangos y cyfanswm cyfunol ar gyfer Cymru, gyda gweithgarwch adfer yn **3,019ha** ac ôl-troed adfer yn **2,553ha**.

Tabl 1. Trosolwg o'r cyflawni a adroddwyd arno ar gyfer Gymru gyfan


Categori a gyfrifwyd	Agwedd a gyfrifwyd	Ariannwyd gan RhWGF 2025/26 (ha)	Heb ariannu gan RhWGF 2025/26 (ha)	Yr holl ddata a adroddwyd i RhWGF 2025/26 (ha)
Gweithgarwch Adfer	**Cyfanswm y Gweithgarwch:**	**2,528**	**491**	**3,019**
Ôl Troed Adfer	Rheoli hydrolegol a Rheoli erydiad	602	75	677
Ôl Troed Adfer	Rheoli Coed a Llystyfiant	1,534	342	1,876
Ôl Troed Adfer	**Cyfanswm yr Ôl Troed:**	**2,136**	**417**	**2,553**

3. Cyflwyniad

3.1. Rhaglen effeithiol gyda ffocws a blaenoriaethau

Mae gan y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (RhWGF) hanes o gyflawni'n effeithiol â ffocws, gan gwblhau canlyniadau uwch na'r targed yn ei phum mlynedd gyntaf.

Sefydlwyd y Rhaglen yn 2020, wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru ac o dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), dyma fenter flaenllaw Cymru i adfer mawndiroedd a chydlynu gweithredu. Mae RhWGF yn gweithio mewn partneriaeth â thirfeddianwyr a rheolwyr tir i ddod â'r tirweddau rhyfeddol hyn yn ôl yn fyw — gan fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a cholled bioamrywiaeth gyda'i gilydd.



Ffigur 1. Mae mawndiroedd iach yn darparu llawer o fuddion i bobl Cymru gan gynnwys bioamrywiaeth gyfoethog, defnydd tir cynaliadwy ar gyfer pori, storio dŵr, storio 30% o'n carbon ar y tir, dalfa carbon net, ac archif ddiwylliannol ac amgylcheddol o'n hanes.

Mae ystod eang o bolisïau Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl hanfodol adfer a gwarchod mawndiroedd wrth sicrhau adferiad byd natur a gwydnwch ecolegol, datgarboneiddio, ac addasu i'r newid hinsawdd. Cafodd yr achos dros barhau ac ehangu'r Rhaglen ei dderbyn a'i fewnosod yn y Dangosyddion a Thargedau Rheoli Tir Cynaliadwy, Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru, a'r Strategaeth ar gyfer Addasu i Newid Hinsawdd diweddaraf.

Mae Adolygiad 2020-2025 RhWGF yn darparu'r cyd-destun i'r uwchraddio a ddechreuodd yn 2025/26 ac a fanylir arno yng Nghynllun 2025-2030. Mae cyflymder a graddfa'r cyfnod pum mlynedd newydd yn fwy. Felly, yn 2025/26 cafodd y staff sy'n ofynnol i adfer mwy o fawndir eu recriwtio, yn ogystal â chymryd y camau ehangach sydd eu hangen i ddiogelu a chynnal y tirweddau hyn er budd pobl, bywyd gwyllt, a'r hinsawdd. Nod RhWGF yw adfer 1,800 hectar o fawndir yn flynyddol erbyn 2030/31, a pharhau i gyflawni ar y raddfa honno. Mae bywyd gwyllt,

hinsawdd, a dŵr yn elwa o fawndiroedd iach. Nid rhan o'n treftadaeth naturiol yn unig ydynt, maent yn hanfodol ar gyfer dyfodol Cymru.

Mae'r holl fawndiroedd amrywiol yng Nghymru yn werthfawr, mae angen eu hamddiffyn ac, yn y rhan fwyaf o achosion, eu hadfer. Ffocws RhWGF yw gwrthdroi erydiad a draeniad mawndiroedd, rheoli mawndiroedd ucheldir ac iseldir yn gynaliadwy, adfer mawndiroedd wedi'u coedwigo, a chymryd camau i adfer rhai o'r mawndiroedd sy'n allyrru carbon uchaf.

Mae RhWGF yn sicrhau effeithiolrwydd trwy arwain ar dair thema drawsbynciol: cydlynu cenedlaethol; monitro cenedlaethol a chofnodi gweithgareddau; a chynyddu ymgysylltiad ehangach gan randdeiliaid, perchnogion tir, a'r cyhoedd.

3.2. Rheoli uwchraddio adnoddau ag ystod

Cyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd i'r Rhaglen yn 2025/26 oedd £5,220,000 Cyfalaf a £422,000 Refeniw, gyda 100% o'r cyllid yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.


Mae Bwrdd RhWGF yn darparu goruchwyliaeth strategol ar y Rhaglen a'r defnydd effeithiol o adnoddau. Mae arweinydd Llywodraeth Cymru ar bolisi mawn hefyd yn cael ei gynrychioli ar y Bwrdd, gan sicrhau aliniad rhwng cyflawni'r Rhaglen ac amcanion polisi cenedlaethol.

Mae trefniadau llywodraethu yn gweithredu'n unol ag egwyddorion cynllun dirprwyo ariannol Rheoli ein Harian CNC, gyda Swyddfa Rheoli Rhaglenni CNC yn darparu goruchwyliaeth ganolog, sicrwydd a chefnogaeth ar gyfer cyflawni'r Rhaglen yn effeithiol.

Tyfodd tîm y Rhaglen, o 7 aelod o staff i 38 aelod o staff, yn ystod 2025/26, gan gyfrannu gallu ac arbenigedd ar draws ystod o swyddogaethau. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cryfhau'r sylfeini sydd eu hangen i gyflawni adferiad mawndiroedd ar gyflymder a graddfa mwy yn y blynyddoedd i ddod. Mae hefyd wedi ehangu capasiti'r Rhaglen ar gyfer monitro a thystiolaeth, datblygu'r gweithlu, cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal â pholisïau a gwaith achos, gan gefnogi'r gwaith o ddarparu a diogelu mawndiroedd ledled Cymru.

Yn unol â hynny, diwygiwyd strwythur Rheoli'r Rhaglen gyda thimau a swyddogaethau pwrpasol yn atebol am Gyflawni, Monitro, Data, Tystiolaeth, a Pholisi a Gwaith Achos.

Adlewyrchir nodau'r Rhaglen yn y strwythur rheoli a'r dolenni cydgysylltu rhwng swyddogaethau, fel y nodir yn Ffigur 2.



Ffigur 2. Mae rheoli'r Rhaglen yn caniatáu atebolrwydd trwy bum arweinydd tîm arbenigol a hyblygrwydd ar gyfer cydgysylltu ar draws swyddogaethau er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf posibl.

4. Cyllid ar gyfer cyflawni


Mae cyflawni targedau uchelgeisiol Adfer Mawndir Cymru yn gofyn am fewnbwn cydgysylltiedig a chydlynol ystod eang o bartneriaid sy'n amrywio o barciau cenedlaethol ac asiantaethau amgylcheddol i berchnogion tir unigol. Mae RhWGF, drwy CNC, hefyd yn darparu adfer mawndir yn uniongyrchol ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (YGLlC), a thrwy gaffael ar safleoedd ecolegol sensitif eraill.

Defnyddiodd RhWGF y systemau canlynol i gyllido a chyflawni prosiectau cyfalaf:

- Grantiau — Cyllid Strategol a Ddyrannwyd a grantiau cystadleuol
- Caffael uniongyrchol — cyflawni'n uniongyrchol ar dir y llywodraeth a chytundebau rheoli tir ar safleoedd partner

Ffigur 3. Tabl a siart pei cysylltiedig sy'n dangos dadansoddiad o'r meysydd gwariant ar gyfer 2025/26.

Categori o wariant	Canran (a hawliwyd)
Grantiau	44.3%
Cytundebau Rheoli Tir	3.2%
Caffael Uniongyrchol	3.1%
Arolygon ag arall	7.3%
Staff	28.5%
Gorbenion	13.5%




4.1. Grantiau

Mae cymorth grant yn ffordd allweddol o ymgysylltu â phartneriaid Adfer Mawndir Cymru, wedi'i alluogi gan bortffolio systemau grantiau CNC. Dyrannodd RhWGF gyfanswm o £2.7m ar draws 17 o dderbynwyr drwy 20 grant yn 2025/26. Dyfarnwyd £2.6, gyda gwariant a hawliwyd ychydig yn is, sef £2.35m. Y dyraniad oedd £2m drwy'r Cyllid Strategol a Ddyrannwyd (CSD/SAF) a £600k drwy'r Grant Adfer Mawndir cystadleuol.

4.1.2 Cyllid Strategol a Ddyrannwyd

Mae RhWGF yn cyflawni ei thargedau uchelgeisiol ar raddfa dirwedd trwy'r mecanwaith Cyllid Strategol a Ddyrannwyd (CSD). Dyrannwyd cyllidebau (dros 3 blynedd) i chwe phartner strategol yn ôl fformiwla yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol. Y cyfanswm a ddyfarnwyd drwy CSD yn 2025/26 oedd £2m a'r cyfanswm gwirioneddol a wariwyd gan bartneriaid oedd £1,920,000.

Ffigur 4. Siart a thabl cysylltiedig yn dangos dyraniad Grant Cyllid Strategol a Ddyrannwyd 2025/26.




Cyllid Strategol a Ddyrannwyd	Dyraniad yn 2025/26	Hawliwyd 2025/26	Cyfanswm y dyraniad tair blynedd (tan 2027/28)
Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (Cyngor Sir Ddinbych)	£49,242	£49,242	£147,726
RSPB	£350,758	£346,570	£1,052,274
Ymddiriedolaeth Cwm Elan	£400,000	£360,723	£1,200,000
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	£400,000	£373,897	£1,200,000
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	£400,000	£389,454	£1,200,000
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	£400,000	£400,000	£1,200,000

4.1.2. Grantiau cystadleuol

Dyrannwyd un rownd Grant Adfer Mawndir cystadleuol yn 2025/26. Mae'r grantiau cystadleuol hyn yn galluogi datblygu a/neu weithredu cyflawni hyd gyllideb o £10K-£250K.

Ffigur 5. Siart a thabl yn dangos dyfarniadau Grantiau Adfer Mawndir cystadleuol yn 2025/26 i ddatblygu cynlluniau a/neu gyflawni adfer mawndiroedd.



Derbynwyr Grantiau Adfer Mawndir	Ffocws adfer: Cyflawni/Datblygu	Dyfarnwyd	Hawliwyd
RSPB (Safleoedd bach Llyn Efyrnwy)	Cyflawni	£76,090	£74,958
Cyngor Sir Abertawe	Datblygu	£24,719	£15,687
RSPB (Cwm Pennant)	Datblygu	£29,226	£29,038
Cyngor Sir Torfaen	Datblygu	£71,038	£46,431
Cyngor Cymuned Llanllŷr	Cyflawni	£19,675	£18,467
Unigolyn preifat	Datblygu	£12,950	£12,450
Unigolyn preifat	Cyflawni	£20,750	£0
Unigolyn preifat	Cyflawni	£47,012	£46,581
J W Greaves a'i Feibion Cyf	Datblygu	£31,633	£30,960
Cyngor Sir Ynys Môn	Cyflawni	£88,702	£2,170
Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed	Datblygu	£28,300	£11,116
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru	Cyflawni	£50,211	£35,712
Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn	Datblygu	£75,074	£65,375
Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn	Cyflawni	£46,321	£41,732

4.2. Caffael uniongyrchol

Ar gyfer cyflawni adfer mawndir yn uniongyrchol, mae cydweithwyr RhWGF a CNC yn canolbwyntio ar ardaloedd o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (YGLIC), Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA).

Mae safleoedd YGLIC yn cael eu hadnabod gan Dîm Cynllunio Coedwigoedd Cenedlaethol CNC yn unol â chynlluniau adnoddau coedwigoedd.

Safleoedd adfer mawndir RhWGF ar YGLIC	Cyflawni 2025/26, ha bras
Blaen Berwyn, Coedwig Tywi.	5.4
Llyn Gorast (de-ddwyrain)	16

Tabl 2. Adfer mawndir RhWGF ar safleoedd Ystad Goetir Llywodraeth Cymru 2025/26.

Ymhlith yr uchafbwyntiau ar gyfer cyflawni ar safleoedd YGLIC mae cyflwyno contract gwaith tir yn ne-ddwyrain safle Llyn Gorast, yng Nghoedwig Tywi. Hwn oedd y contract gwaith tir cyntaf ar Fframwaith Adfer Mawndir newydd y RhWGF. Cafodd y contract ei ddylunio a'i reoli gan Swyddog Arbenigol profiadol RhWGF, gan weithio gyda'r contractwr mawndir. Roedd yr adferiad yn cynnwys amrywiaeth o wahanol dechnegau, gan gynnwys llyfnhau tir, malu bonion, byndio ar hyd cyfuchlinau, a gosod argaeau.



Ffigur 6. Cyfres o argaeau pren wedi'u gosod o fewn ffos ddraenio ar safle Llyn Gorast (de-ddwyrain), Coedwig Tywi.

4.3. Cytundebau Rheoli Tir

Yn gyffredinol, caiff cyllid uniongyrchol a roddir gan CNC ar gyfer gweithgareddau rheoli neu adfer ar dir trydydd partïon ei lywodraethu gan Gytundeb Rheoli Tir Adran 16, ond gall mecanweithiau cyllido eraill cael eu cymhwyso hefyd. Gweler prosiectau a ariennir 2025/26 yn y tabl isod.

Tabl 3. Y gweithgarwch adfer a alluogwyd gan Gytundebau Rheoli Tir neu gytundebau eraill yn ystod 2025/26.

Adfer wedi'i alluogi gan Gytundeb Rheoli Tir neu gytundebau eraill	**Cyflawni 2025/26, ha bras**	**Cyllid a/neu gymorth a ddarparwyd**
Waun Fawr, Crymych	7	£1,287 (torri gwair) £23,600 ffensys a chwlfert (gwaith wedi'i ddylunio a'i gaffael gan RhWGF)
RSPB Hafod	19.2	£45,221
RSPB Cerniau	2	£14,436
Fenn's a Whixall	32	£64K
Cors Erddreiniog	Ymchwiliad yn unig	£16,590
Llyn Tynymynydd	6	£1,810



Ffigur 7. ‘Pisten Bully’ yn torri gwair mewn cynefin glaswelltir corsiog cyn sefydlu pori yn Waun Fawr, Crymych.



Ffigur 8. Dau ffotograff yn dangos gwaith yn Fenn's a Wixall yn cynnwys byndio.

Roedd gwaith Cors Erddreiniog yn cynnwys ymchwiliadau hydrolegol a pherchnogaeth yn unig. Yn ystod 2025/26, ariannodd RhWGF osod offer i gefnogi casglu data hydrolegol gwaelodlin ar gyfer prosiect i ddychwelyd yr holl ddylanwad dŵr daear calchaidd pwysig i ardaloedd o fawndir a llyn marl o fewn y ffen. Bydd hyn yn llywio manylion gwaith adfer dilynol.

4.4. Trwyddedau mynediad

Mae gwaith adfer yn SoDdGA Vicarage Moss, sir Wrecsam, a ariennir gan Rwydweithiau Natur a'r RhWGF, wedi gwella system gors pant rhewlifol pwysig. Ariannodd RhWGF y gwaith o dynnu prysgwydd trwchus ac ymlediad conwydd o'r gyforgors ganolog. Mae'r gwaith wedi ailagor wyneb y gors, wedi gwella'r gallu i gadw dŵr, ac wedi creu gwell amodau ar gyfer adfer Migwyn a phlanhigion mawndir arbenigol eraill. (Ariannodd Rhwydweithiau Natur y gwaith clirio eithin ar y gors pant rhewlifol llai cyfagos.) Gyda'i gilydd, mae'r gwaith hwn yn helpu i ddiogelu gwerth ecolegol a daearegol Vicarage Moss.

Cyllid drwy drwyddedau mynediad	Cyflawni 2025/26, ha bras	Cyllid a ddarparwyd
SoDdGA Vicarage Moss	3	£17,500

Tabl 4. Cyllid drwy Drwydded Mynediad.



Ffigur 9. Ariannodd RhWGF gwaith symud prysgwydd trwchus ac ymlediad conwydd yn Vicarage Moss.

5. Trosolwg cyflawni


5.1. Trosolwg strategol

Isod, crynhoir rhai o elfennau allweddol y Rhaglen, gyda Ffigurau 10-13 yn cyfleu rhai o brif feysydd y Rhaglen y llwyddwyd i'w cyflawni yn 2025/6.

Ffigur 10: Tabl a siart ar fap yn dangos Hectarau o Weithgarwch Adfer adroddwyd yn ôl Grŵp Gweithgarwch Bras.


Gweithgarwch adfer:	**Ha***
Rheoli hydrolegol	328
Rheoli erydiad	306
Rheoli llystyfiant	6
Rheoli coed	1450
Rheoli tir pori	438

* Pan fydd ansawdd data GIS wedi'i sicrhau'n llawn, caiff ei gyhoeddi ar Borth Data Mawndiroedd Cymru.



Ffigur 11: Tabl a siartiau ar fap sy'n dangos Hectarau o Weithgarwch Adfer a adroddwyd yn ôl Grŵp Gweithgarwch Bras ar gyfer pob Ardal Weithredol.


Ardal Weithredol	Rheoli erydiad (ha)	Pori (ha)	Rheoli hydrolegol (ha)	Rheoli coed (ha)	Rheoli llystyfiant (ha)	Cyfanswm arwynebedd (hectarau)
Canolbarth Cymru	188	157	112	8	0.5	**465.5**
Gogledd Ddwyrain Cymru	6	0	27	124	0	**157**
Gogledd Orllewin Cymru	97	237	182.5	1318	3	**1837.5**
De Ddwyrain Cymru	1	0	6	0	0	**7**
De Orllewin Cymru	14	44	0	0	3	**61**



Ffigur 12: Tabl a siart ar fap yn dangos Hectarau o Weithgarwch Adfer a adroddwyd yn ôl Thema Blaenoriaeth.

Thema Blaenoriaeth	Ha*
Wedi coedwigo	11.5
Erydiad	306
Draenio	327.5
Iseldir	136
Ucheldir	1747


* Pan fydd ansawdd data GIS wedi'i sicrhau'n llawn, caiff ei gyhoeddi ar Borth Data Mawndiroedd Cymru.



Ffigur 13: Tabl, a map fel dangosydd, yn cyfleu Hectarau Gweithgaredd Adfer, adroddwyd yn ôl y Dull Ariannu.

Dull ariannu	Ha a adroddwyd*	Y prif themâu blaenoriaeth yr ymdriniwyd â nhw
Grant Cyllid Strategol a Ddyrannwyd	1285	Draeniad mawndiroedd Erydiad mawndiroedd Rheoli mawndiroedd yr iseldir a'r ucheldir mewn ffordd gynaliadwy
Grant Adfer Mawndir cystadleuol	249	Draeniad mawndiroedd Erydiad mawndiroedd Rheoli mawndiroedd yr iseldir a'r ucheldir mewn ffordd gynaliadwy
Caffael gwaith paratoi'r pridd yn uniongyrchol	925	Draeniad mawndiroedd Rheoli mawndiroedd yr iseldir a'r ucheldir mewn ffordd gynaliadwy Mawndiroedd wedi'u goedwigo
Cytundebau Rheoli Tir - A16 ac eraill	69	Draeniad mawndiroedd Erydiad mawndiroedd Rheoli mawndiroedd yr iseldir mewn modd cynaliadwy Mawndiroedd wedi'u coedwigo

* Pan fydd ansawdd data GIS wedi'i sicrhau'n llawn, caiff ei gyhoeddi ar Borth Data Mawndiroedd Cymru.



5.2. Uchafbwyntiau partneriaid

5.2.1. CSD Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri



5.2.2. CSD Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog



5.2.3. CSD yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol



5.2.4. CSD yr RSPB



5.2.5. CSD Ymddiriedolaeth Cwm Elan



5.2.6. CSD Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy



6. Arolygu a monitro


Mae arolygu a monitro yn elfennau hanfodol o adfer mawndiroedd Cymru. Maent yn cefnogi dyluniad ymyriadau adfer, yn darparu dilysiad ar gyfer cyflawni adfer, ac yn llywio arferion gorau wrth gymhwyso technegau adfer. Mae arolygu a monitro yn galluogi asesu ac arddangos newid ecolegol, yn enwedig gwelliannau mewn bioamrywiaeth, yn ogystal â gostyngiadau a ragwelir mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Hefyd, mae monitro tystiolaeth yn chwarae rôl allweddol wrth gyfathrebu a hyrwyddo manteision amgylcheddol a chymdeithasol ehangach adfer mawndiroedd.

6.1. Uchafbwyntiau yn 2025/26

Sefydlodd RhWGF ei Dîm Arolygu a Monitro rhwng canol a diwedd 2025/26. Mae hyn yn cynyddu'r capasiti ar gyfer datblygu strategol a chyflawni monitro yn y dyfodol.

Ymhlith uchafbwyntiau eraill cyflawni arolygu a monitro 2025/26 trwy RhWGF mae:

- Cwblhau Arolygon Pecyn Cymorth Mawn ar gyfer pum ardal Cynllun Adnoddau Coedwig (CAC/FRP) (gan gynnwys cydrannau casglu data maes ac adrodd ar gyfer dwy ardal, sy'n cwmpasu cyfanswm cyfunol o 319.2ha; ar gyfer y tair ardal CAC arall roedd gwaith yn cynnwys cwblhau'r gydran adrodd gyda chasglu data wedi'i gwblhau y flwyddyn flaenorol).
- Arolygon dyfnder mawn a gwblhawyd ar saith safle, ynghyd â chwblhau rhannol ar ddau safle ychwanegol, wrth baratoi ar gyfer gwaith adfer tir yn 2026/27 a 2027/28. Mae dull arolygu'n gofyn am gasglu sampl ar grid 100m o leiaf.
- Arolwg mawn o ddaliadau tir CNC ar GNG y Berwyn, sy'n cwmpasu tua 1300ha, a gofnododd 1286 o ddyfnderoedd mawn.
- Arolygon Llygod Pengrwn y Dŵr ar wyth safle (100ha) i lywio trwyddedau rhywogaethau, paratoi cynlluniau lliniaru, a llywio dylunio manylebau adfer.
- Mapio cyflwr a samplu pwynt sefydlog o lystyfiant ar dri safle gyda 129 o samplau wedi'u sefydlu. Mae cyfanswm o 10 safle wedi cael eu samplu gan ddefnyddio'r dull hwn.
- Mae'r Strategaeth Monitro Hydrolegol bellach ar gael ac yn cael ei defnyddio i arwain cynlluniau ar gyfer gosod offeryniaeth hydrolegol.
- Mae data hydrolegol o offeryniaeth bresennol yn parhau i gael ei lawrlwytho a'i adolygu. Mae Ffigur 14 yn rhoi enghraifft o Hafod Elwy.
- Cyfarfu Grŵp Monitro Adfer Mawndir Cymru ddwywaith yn ystod y flwyddyn a thrafod amrywiaeth o bynciau gan gynnwys Ecohydroleg Gorgors, defnyddio InSAR, swyddogaethau craidd Tîm Arolygu a Monitro RhWGF, yn ogystal â diweddariadau partneriaid.
- Datblygu cynllun rheoli prosiect a chynllun hyfforddi drafft ar gyfer y flwyddyn i ddod ar gyfer y Tîm Arolygu a Monitro.
- Cychwyn adolygiad o'r dulliau arolygu a monitro mawndiroedd presennol i benderfynu ar arferion gorau, gyda'r nod o gwblhau dulliau yn 2026/27.



Ffigur 14: Siart gyda llinell las sy'n dangos dyfnder lefel trwythiad o dan wyneb y ddaear, yn tystiolaethu yn glir y cynnydd mewn lefel trwythiad ar ôl adferiad yn Hafod Elwy. O'r chwith i'r dde, mae'r siart yn dechrau Tachwedd 2021 i Ebrill 2026, gyda'r adran ganol yn dangos sut y cododd byndio ar hyd cyfuchlinau lefelau dŵr uwchben wyneb y ddaear.



Ffigur 15: Hafod Elwy yn dangos gweithrediad mawndir iach gyda lefel y dŵr wedi'i godi.

7. Gwyddor data


Mae'r Tîm Gwyddor Data yn gweithio gyda mapiau a data i fesur yr adnodd mawndir yng Nghymru a helpu i gynllunio, gweithredu ac adrodd ar gynnydd RhWGF a chanlyniadau ymdrechion adfer i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth.

Recriwtio
Roedd arweinydd y Tîm Gwyddor Data yn ei swydd erbyn canol mis Hydref. Dechreuodd broses recriwtio'r Ymgynghorydd Arbenigol GIS a Chynhyrchion Data, Ymgynghorydd Arbenigol ar gyfer Bioamrywiaeth Mawndiroedd, a dau swyddog GIS a Data ym mis Chwefror 2026. Roedd yr Ymgynghorydd Arbenigol GIS a Chynhyrchion Data yn ei swydd erbyn mis Mawrth.

Pennu ystod gwaith a'i gyflawni
Pennwyd ystod a phecynnau gwaith y tîm newydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, gan neilltuo blaenoriaeth i recriwtio a chynnal mesurau cyflawni allweddol.

- Cynhaliwyd archwiliad o adnoddau data RhWGF a phrosesau presennol i asesu statws y gwaith technegol a'r gofynion i gyflawni yn 2026/27.
- Roedd cyflawni technegol yn blaenoriaethu olrhain gweithgarwch adfer. Sef, gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i arwain, olrhain a gwirio'r mapiau gweithgarwch y maent yn eu darparu wrth baratoi ar gyfer ymgorffori mewn piblinellau dadansoddol a ddefnyddir i gyflwyno mapiau a metrigau cyfunol ar gyfer y Rhaglen. Parhaodd y gwaith hwn ochr yn ochr â recriwtio aelodau newydd o'r tîm a fydd yn ymgymryd â hyn i'r dyfodol.
- Roedd gwaith i adolygu a diweddaru cynhyrchion data presennol ar gyfer gweithgarwch adfer a mapio cyfleoedd hefyd yn sail ar gyfer nodi cynlluniau cynefino a hyfforddi ar gyfer aelodau'r tîm.

Ffigur 16: Rôl ganolog y tîm Gwyddor Data wrth gefnogi swyddogaethau mewnol ac allanol.



8. Polisi, cynllunio datblygu, adrodd, a thystiolaeth

Yn 2025/26 cwblhawyd y broses o recriwtio staff i'r tîm, gan ddod â chyfanswm yr aelodau i 6.5. Erbyn hyn ceir rolau arbenigol sy'n cwmpasu tystiolaeth, polisi, adrodd, a gwaith achos diogelu safle, yn ogystal â'r rhychwant ehangach o waith mae'r tîm yn ei gwmpasu. Mae'r ystod ehangach hwn yn cynnwys cyngor ar bolisi i CNC, Llywodraeth Cymru, Rhaglen Mawndiroedd y DU IUCN, JNCC, a datblygu Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi galluogi ffocws cryfach a mwy rhagweithiol mewn meysydd allweddol sy'n sail i'r rhaglen gyflawni, yn ogystal â mesurau ehangach sy'n cyfrannu at ddiogelu a rheoli adnoddau mawndir yn gynaliadwy.

Ffigur 17. Mae RhWGF yn darparu cyngor polisi i alluogi gwneud penderfyniadau gwybodus ar ystod o fentrau, camau gweithredu a pholisïau.



8.1. Polisi

Diogelu mawndiroedd

Mae dynodi safleoedd yn parhau i fod yn offeryn hanfodol ar gyfer diogelu mawndiroedd. Yn ystod 2025/26, roedd y prif weithgarwch yn canolbwyntio ar ddynodiad Mynyddoedd Llangynidr a Llangatwg, Cefn yr Ystrad a Chomin Merthyr, safle ucheldir mawr (>6,000ha) yn Ne Ddwyrain Cymru.



Ffigur 18. Mynydd Llangatwg: gorgors ar dân Awst 2025.

O ran gweithgarwch mwy strategol, dechreuwyd adolygiad o flaenoriaethau dynodi cenedlaethol ar gyfer nodweddion mawndir Cymru a chwblhawyd gwaith i ddiwygio canllawiau dethol SoDdGA cenedlaethol ehangach JNCC (Lloegr, Cymru a'r Alban) ar gyfer cynefinoedd ffen, yn barod ar gyfer adolygiad a chymeradwyaeth derfynol JNCC.

8.2. Cynllunio datblygu

Darparodd RhWGF graffu technegol arbenigol ar draws 43 o geisiadau cynllunio i gyd. Roedd datblygu ynni adnewyddadwy (ac ynni gwynt yn bennaf) yn dominyddu'r gwaith hwn, gyda 31 o achosion. Cafodd y rhan fwyaf o'r ceisiadau eu dosbarthu fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). Roedd y llwyth achosion cyffredinol yn cynnwys 11 cais am gyngor cwmpasu AEA, 7 ymgynghoriad cyn ymgeisio, a 10 cais cynllunio llawn.

Darparwyd cynrychiolaeth arbenigol mewn dau wrandawiad cynllunio a arweiniwyd gan arolygydd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) Llywodraeth Cymru, yn cwmpasu cais fferm solar yng Nghil-lonydd a chais fferm wynt gerllaw ym Mynydd Maen, y ddau wedi'u lleoli yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Lle bynnag y bo'n bosibl, cefnogwyd y gwaith hwn gan ymweliadau safle i bennu cywirdeb mapio pridd mawn a chynefinoedd a wnaed i gefnogi ceisiadau cynllunio.



Ffigur 19. Arbenigwyr gwaith achos yn asesu cynefin mawndir yng Ngharnedd Wen, Llanbrynmair.

Mae cyllid RhWGF a Phrosiectau Seilwaith Sylweddol wedi galluogi recriwtio dau swyddog gwaith achos yn 2025/26 er mwyn sicrhau bod CNC yn cwrdd â gofynion y llwyth gwaith achos cynyddol hwn.

8.3. Adrodd

Mae tystiolaeth RhWGF yn bwydo i ystod eang o ofynion adrodd sy'n gysylltiedig â meysydd polisi allweddol bioamrywiaeth a datgarboneiddio, a dechreuodd waith ar fapio'r prif feysydd y bydd tystiolaeth RhWGF yn bwydo iddynt yn y blynyddoedd nesaf. Cwblhawyd y cyflwyniadau ar gyfer adroddiad 9A Rheoliadau Cynefinoedd yn 2025/26. Mae hyn yn olynu adroddiadau blaenorol o dan Erthygl 17 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau ond mae'n dilyn fformat tebyg iawn. Mae'n cynrychioli asesiad lefel gwlad cyntaf Cymru o dan Reoliad 9A Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd yng Nghymru). Cwblhawyd adroddiadau ar gyfer y naw cynefin gwlyptir a restrir o dan Atodiad 1 y Gyfarwyddeb.

Mae'r asesiad yn tanlinellu pwysigrwydd RhWGF fel rhaglen sy'n mynd i'r afael â chyflwr mawndiroedd ar draws Cymru. Mae datblygu metrigau mwy cynhwysfawr, sy'n adlewyrchu adferiad ecosystem, yn flaenoriaeth allweddol i RhWGF.

8.4. Tystiolaeth

Hefyd yn 2025/26, penodwyd uwch arweinydd Tystiolaeth ymroddedig i ddatblygu rhaglen dystiolaeth gynhwysfawr mewn partneriaeth â Grŵp Tystiolaeth Mawndir Cymru RhWGF.

9. Ymgysylltu – partneriaid, contractwyr, a'r cyhoedd

9.1. Ymgysylltu â phartneriaid

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol ar gyfer diogelu, adfer a rheoli mawndiroedd. Perchnogion a rheolwyr tir sy'n gofalu am y 4% o Gymru sy'n fawndir, adnodd cenedlaethol gwerthfawr. Mae RhWGF yn ymgysylltu â nhw trwy grantiau a digwyddiadau allgymorth.

Ar lefel strategol, mae RhWGF yn cydlynu sawl grŵp allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys pedwar grŵp Adfer Mawndir Cymru sy'n canolbwyntio ar: gyflawniad Strategol, cyflawniad Ymarferwyr, Monitro, a Thystiolaeth.

Mae RhWGF hefyd yn gweithio gyda phartneriaid y tu allan i Gymru, gan gynnwys yr IUCN, rhaglenni mawndiroedd eraill, a chyrff llywodraethol.



Ffigur 20: Mynychodd nifer dda y Digwyddiad Ymarferwyr deuddydd a oedd yn cynnwys dysgu arfer dda adfer ar safleoedd Cwm Elan a Chors Caron.

9.2. Ymgysylltu â chontractwyr

Yn 2025/26, cynyddodd RhWGF ei waith gyda chontractwyr trwy recriwtio rôl Datblygu'r Farchnad newydd.

Ymhlith y cyflawniadau allweddol roedd:

- cynnal digwyddiadau i 40 o gontractwyr yng ngogledd a de Cymru
- lansio a dyfarnu fframwaith adfer mawndiroedd 8 mlynedd:
    - Gwaith paratoi'r tir – dyfarnwyd i 8 cwmni
    - Rheoli llystyfiant a phrysgwydd – dyfarnwyd i 8 cwmni
    - Datblygu contractwyr, i'r rhai sy'n newydd i fawndiroedd – dyfarnwyd i 2 gwmni
- cymorth ychwanegol gan Busnes Cymru ar gyfer ymgeiswyr fframwaith
- cyhoeddi Pecyn Croeso Contractwyr RhWGF, sy'n cwmpasu nodweddion mawndiroedd, nodau adfer, hydroleg, dulliau adfer, a rheoliadau dylunio a rheoli (CDM)
- hyfforddiant a ddarparwyd i gontractwyr ar elfen ddatblygu'r fframwaith
- gwaith parhaus gyda phartneriaid i ddylunio hyfforddiant i gontractwyr y dyfodol.




Ffigur 21: Roedd lansio Fframwaith Adfer Mawndir ar gyfer Contractwyr yn cynnwys cefnogaeth i ymgeiswyr.

9.3. Cyfathrebu

Gydag uwchraddio RhWGF, cynyddodd ei weithgaredd cyfathrebu hefyd. Rhannodd RhWGF ei Gynllun 2025-2030 a'i Adolygiad o 2020-2025. I'r cyhoedd, cynhyrchodd RhWGF animeiddiadau 'Stori Mawndir Cymru' a 'Y Da, y Drwg, a'r Tirfeddygon'. Helpodd y rhain i egluro beth yw mawndiroedd a pham fod adfer yn bwysig.

Mynychodd perchnogion a rheolwyr tir a oedd â diddordeb mewn grantiau mawndir gweminarau arweiniad gyda sesiynau holi ac ateb. Fe wnaethant hefyd ymgysylltu â RhWGF mewn digwyddiadau allgymorth fel Sioe Frenhinol Cymru. Rhannodd RhWGF newyddion drwy'r cyfryngau ac ar gyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio @PeatlandCymru. Dangosodd un stori boblogaidd sut roedd mawndiroedd wedi'u hadfer yn helpu i atal lledaeniad tanau gwyllt. Er mwyn cefnogi twf y Rhaglen, hysbysebodd RhWGF swyddi newydd, gyda dros 3,000 o bobl wedi'u gweld ar-lein. Mae gwybodaeth gyffredinol ar gael ar dudalen we RhWGF, a gellir anfon ymholiadau at npap@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.




Ffigur 22: Newyddion da o Lyn Gorast, Tywi, lle ataliodd y safle mawndir newydd ei adfer ledaeniad tanau gwyllt o'r ardal gyfagos heb ei hadfer.